


Cylchlythyr System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu (WNWRS)

System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS)

Ansawdd Data

Bydd ansawdd yr wybodaeth a roddwch yn WNWRS yn sicrhau ein bod yn cael y data mwyaf cywir posibl o'r system. Diolch i bob Rheolwr Practis sy'n parhau i gadw cofnodion staff llawn a chywir yn y system. Cyn i'r data gael eu casglu tro nesaf ar 30 Medi 2023, manteisiwch ar y cyfle hwn i wirio nad oes unrhyw rybuddion yn erbyn unrhyw aelod o staff yn eich Practis. Mae rhybuddion yn cael eu dynodi gan farc cwestiwn neu ebychnod wrth ymyl enw'r aelod staff ar y Tabl Staff. Os oes rhybudd wrth ymyl enw un o'ch tîm, agorwch ei gofnod ac ychwanegwch yr wybodaeth sydd ar goll i glirio'r rhybudd.



Ffocws ar: Gapasiti Ychwanegol

Os yw eich Practis yn gwneud ceisiadau am Daliadau Capasiti Ychwanegol trwy eich Bwrdd Iechyd bydd WNWRS yn cael ei defnyddio i ddilysu'r hawliadau hynny. Mae hyn yn golygu na fydd angen i bractisiau ddarparu slipiau cyflog a dogfennaeth bersonol adnabyddadwy arall i Fyrdau Iechyd. Deallwn fod Practisiau wedi gweld hyn yn llafurus a'i fod yn cymryd llawer o amser. Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio **NAILL AI'R** Tabl Capasiti Ychwanegol i gofnodi oriau ychwanegol amrywiol neu ad hoc ar gyfer aelodau presennol o staff **NEU** rhwch contract 'Capasiti Ychwanegol' i'r aelod staff os yw ei oriau i gyd at ddibenion Capasiti Ychwanegol. Dylai'r oriau a nodir ar y ffurflen Hawlio Capasiti Ychwanegol a gyflwynir i'ch Bwrdd Iechyd gyd-fynd â'r rhai a adlewyrchir yn WNWRS i sicrhau dilysiad cyflym. Byddwch yn ymwybodol ein bod yn darparu'r gwasanaeth dilysu i Fyrdau Iechyd yn uniongyrchol ar sail yr wybodaeth rydych wedi'i nodi, felly ni allwn wneud sylwadau ar unrhyw daliadau neu benderfyniadau a wneir gan Fyrdau Iechyd mewn perthynas â Chapasiti Ychwanegol. Os hoffech gael cymorth ychwanegol neu os oes gennych ymholiad ar sut i nodi eich oriau Capasiti Ychwanegol yn WNWRS, cysylltwch â'r tîm ar yr e-bost isod.

Trefnu Meddyg Teulu Locwm

Roeddem eisiau rhannu stori 'Newyddion Da' gan un o'n Practisiau Meddygon Teulu sydd wedi defnyddio [Locum Hub Wales \(ar y wefan GP Wales\)](#) yn ddiweddar er budd eu Practis. Postiodd Rheolwr y Practis y sifftiau oedd ar gael ar [Locum Hub Wales](#) a chafodd nifer o Feddygon Teulu Locwm yn gwneud cais am y sifftiau a hysbysebwyd. Roedd rhai ohonynt yn newydd i'r Practis ac yn fodlon teithio cryn bellter i wneud y gwaith oedd ar gael. Mae'r Practis bob amser wedi defnyddio [Locum Hub Wales](#), ond yn ddiweddar mae wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y meddygon teulu locwm sydd wedi gwneud cais am y sifftiau sy'n cael eu hysbysebu. Gwelodd y Practis trwy ddefnyddio [Locum Hub Wales](#), eu bod yn gallu ymgysylltu â'r Meddyg Teulu Locwm gorau ar gyfer eu practis, am gost a oedd yn dderbyniol i bob parti, gan roi'r Practis mewn rheolaeth a rhoi dewis iddynt wrth lenwi'r sifft a hysbysebwyd.

Os nad ydych wedi defnyddio Locum Hub Wales ers tro, rydym yn eich annog i bostio eich sifftiau nawr – efallai y byddwch yn dod o hyd i Feddygon Teulu Locwm newydd sy'n fodlon gweithio yn eich Practis.

Os hoffech chi rannu unrhyw adborth ar Locwm Hub Wales, [llenwch y ffurflen hon](#), neu cysylltwch â ni ar y cyfeiriad e-bost isod.

Syniadau ac awgrymiadau

Ddim yn siŵr a yw'r Meddyg Teulu Locwm yr ydych am ei ddefnyddio ar y Gofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan (AWLR)? Mae'r [Rhestr Cyflawnwyr Meddygol \(MPL\)](#) yn dangos i chi a yw'r Meddyg Teulu Locwm ar AWLR a phryd y dechreuodd ei Indemnïad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI), drwy'r saeth ar y gwymplen ar ochr chwith cofnod y Meddyg ar MPL. Fel arfer gorau, nodwch rif AWLR unrhyw Feddyg Teulu Locwm rydych yn ei ddefnyddio, os ydych wedi gwneud trefniant y tu allan i Locum Hub Wales.

Tystysgrif Nawdd

Ydych chi am recriwtio Meddyg Teulu newydd? Yna efallai y bydd cael Trwydded i noddi Meddyg Teulu newydd gymhwyso yn opsiwn i chi. Mae PCGC yma i'ch cefnogi drwy'r broses hon – am ragor o wybodaeth, e-bostiwch:

PCGC.CertificateofSponsorship@wales.nhs.uk

